OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 923 (Cy.132)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
LLYGRU MOROL, CYMRU
TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*22 Mawrth2011*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 108 o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 316(6)(b) a (7)(f) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru—

(**1**) 2009 p. 23.

(a) yn awdurdod trwyddedu priodol(**2**) ar ei gyfer (a rhaid darllen cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr awdurdod trwyddedu" yn unol â hynny);

(b) yn awdurdod gorfodi(**3**) ar ei gyfer (a rhaid darllen cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr awdurdod gorfodi" yn unol â hynny).

Apelau yn erbyn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol

3.—(1) Caiff person y dyroddwyd hysbysiad iddo o dan adran 72 o Ddeddf 2009 (hysbysiad yn amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded forol neu estyn cyfnod ataliad) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf(**4**) yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Atelir hysbysiad, y cyfeirir ato ym mharagraff (1) sy'n amrywio trwydded forol, mewn perthynas â'r amrywiad hwnnw, hyd nes penderfynir yr apêl.

(3) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf atal unrhyw hysbysiad arall y cyfeirir ato ym mharagraff (1), yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hyd nes penderfynir yr apêl.

Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau stop a hysbysiadau diogelwch brys

4.—(1) Caiff person y dyroddwyd iddo unrhyw un o'r hysbysiadau ym mharagraff (2) apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Yr hysbysiadau yw—

(a) hysbysiad cydymffurfio;

(b) hysbysiad adfer;

(c) hysbysiad stop;

(ch) hysbysiad diogelwch brys(**5**).

(3) Atelir hysbysiad cydymffurfio ac unrhyw ofyniad mewn unrhyw hysbysiad o'r fath, hyd nes penderfynir apêl yn erbyn yr hysbysiad.

(4) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf atal unrhyw hysbysiad adfer, hysbysiad stop neu hysbysiad diogelwch brys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hyd nes penderfynir yr apêl.

Apelau — darpariaethau pellach

5.—(1) Mewn unrhyw apêl, mae'r baich prawf ar yr awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod gorfodi, (fel y bo'n briodol), ac—

(a) os yw'r apêl yn ymwneud â'r honiad o gyflawni tramgwydd, rhaid i'r awdurdod brofi y cyflawnwyd y tramgwydd, y tu hwn i amheuaeth resymol, a

(b) mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu'r safon o brawf.

(2) Caiff y Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) tynnu'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo yn ôl;

(b) cadarnhau'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad sydd ynddo;

(**2**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 322(1) am ddiffiniad o'r rhanbarth hwnnw.

(**3**) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod gorfodi ar gyfer yr ardal y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei chyfer yn rhinwedd adran 114(2) o Ddeddf 2009.

(**4**) Neilltuir apelau i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010 (O.S. 2010/2655). Pennir y rheolau trefniadol mewn perthynas ag apelau o'r fath yn Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976).

(**5**) Ynglŷn â'r hysbysiadau a grybwyllir ym mharagraff (2) (a) i (d), gweler adrannau 90, 91, 102 a 104 o Ddeddf 2009.